

# Gwyllydydd



CYFNODOLYN SYNOD CYMRU YR EGLWYS FETHODISTAIDD



*Ar ôl hyn tywalltaf fy ysbryd ar bawb*

(Joel 2: 28)

# Deuwn, Arglwydd, â'n rhai bychain



Bedydd  
Greta  
Hywel



Bedydd Emmi Joan ac Iris Anne

Bedyddiwyd Emmi Joan ac Iris Anne yn y Tabernacl, Llanfyllin ar 1 Ebrill ac yno hefyd ar 30 Ebrill y bedyddiwyd Robyn Soffia. Ar 2 Ebrill fe fedyddiwyd Greta Hywel yn Shiloh, Tregarth. Boed bendith Duw arnynt hwy a'u teuluoedd.



Bedydd Robyn Soffia

**D**yma'r un deg un disgybl yn mynd i Galilea, i'r mynydd lle roedd Iesu wedi dweud wrthyn nhw am fynd...Wedyn dyma Iesu'n mynd atyn nhw ac yn dweud, "Dw i wedi cael awdurdod llwyr i reoli

popeth yn y nefoedd ac ar y ddaear. Felly ewch i wneud pobl o bob gwlad yn ddisgyblion i mi, a'u bedyddio nhw fel arwydd eu bod nhw wedi dod i berthynas â'r Tad, a'r Mab a'r Ysbryd Glân. A dysgwch

nhw i wneud popeth dw i wedi'i ddweud wrthoch chi. Gallwch chi fod yn siŵr y bydda i gyda chi bob amser, nes bydd diwedd y byd wedi dod."

*(Mathew 28: 16-20 beibl.net)*

## Gweddïau ar gyfer y Sulgwyn

Dduw, rhoddwr bywyd,  
roedd dy Ysbryd yn ymsymud dros y ddaear ar enedigaeth y cread:  
boed i fywyd newydd gael ei eni ynom.  
Disgynnodd dy Ysbryd ar Iesu pan gafodd ei fedyddio:  
disgyn ar ein cartrefi, a'n heglwysi.  
Anadlodd Iesu dy Ysbryd ar ei ddisgyblion wedi iddo atgyfodi:  
Anadla arnom dy dangnefedd.  
Disgynnodd dy Ysbryd  
A llenwi dy holl bobl ar ddydd Pentecost:  
felly llanw ni, a dysg i ni iaith dy gariad.  
Amen.

Tywallt dy Ysbryd, Dduw rhyfeddol,  
ar diroedd sy'n grin gan ryfel, ar gaeau sy'n grin gan sychder,  
ar freuddwydion sy'n grin gan esgeulustod,  
ar eglwysi sy'n grin gan hunanfodlonrwydd,  
fel y bydd y Pentecost hwn yn gweld gobaith newydd, bywyd newydd,  
cariad newydd ac egni newydd yn llenwi calonnau ac yn newid bywydau.  
Gofynnwn hyn yn enw Iesu.  
Amen.

*(atgynhychir drwy garedigrwydd Roots for Churches)*

# Gwyllyddydd

CYFNODOLYN SYNOD CYMRU  
YR EGLWYS FETHODISTAIDD  
Sefydlwyd 1877 – Cyfres Newydd 1987  
RHIF 207

## MEHEFIN - GORFFENAF 2017

Cyhoeddir 6 rhifyn y flwyddyn – am ddim i  
aelodau a chyfeillion Synod Cymru.  
6 rhifyn drwy'r post £4.

## BARNY CYFRANWYR UNIGOL A FYNEGIR YN YR EITEMAU UNIGOL

### Golygyddion:

#### ROBIN JONES

LLYS ALAW, 18 STÂD ERYRI  
BETHEL, CAERNARFON  
GWYNEDD LL55 1BX  
Ffôn: 01248 670140  
symudol: 07780869907  
e-bost:

robinbethel@tiscali.co.uk

#### FFION ROWLINSON

CRUD YR AWEL  
LÔN NEWYDD COETMOR  
BETHESDA, GWYNEDD LL57 3DT  
Ffôn 01248 605365  
e-bost:

ffion.rowlinson@trysor.f9.co.uk

*Croeso i chi anfon at Robin neu Ffion*

### DYDDIAD CAU:

#### 1 GORFFENAF, 2017

Dylid gwneud sieciau yn daladwy i  
"Yr Eglwys Fethodistaidd –  
Talaith Cymru"

Argraffwr:

Gwasg y Bwthyn, Caernarfon (01286) 672018

Llun y clawr:

**Pentecost** gan Annet Rowlinson

## RHODDION

Diolchwn yn gynnes unwaith eto  
am y tanysgrifiadau a'r rhoddion  
caredig a dderbyniwyd tuag at  
gostau cyhoeddi a dosbarthu'r  
*Gwyllyddydd*.

EDRYCHWN YMLAEN AT  
DDERBYN TANYSGRIFIADAU  
AR GYFER 2017 PAN FYDD YN  
HWYLUS I CHI.

Mrs G R Ellis, Bebington..... £10-00  
Dienw .....£100-00  
Mrs O M Whomsley,  
Aberhonddu.....£4-00  
Mrs Manon Gruffydd,  
Llandegfan .....£10-00

**Cyfanswm: £124-00**

# OR GADAIR AR Y GOROR

gan y Parchedig JENNIFER HURD

Mae plant yn dweud pethau mor ddoniol weithiau! Ac maent mor onest ac yn dangos y fath ddoethineb. Rwy'n cofio clywed am ferch fach oedd wedi mynd i'r capel am y tro cyntaf gyda'i rhieni. Rhyw dair neu bedair oedd hi, ac roedd ei rhieni yn berchnogion siop. Roedd y fechan wedi arfer gweld ei rhieni, a phobl eraill, yn gweini yn y siop ac yn gwerthu pethau i'r cwsmeriaid, gan ddefnyddio'r til ac yn blaen. Yn ystod ei phrofiad cyntaf o addoli yn y capel ar fore Sul, eisteddodd hithau'n llonydd a distaw, gan lygadrythu'n syn ar y gweinidog yn y pulpud. Roedd hi'n dawel iawn hefyd wrth gerdded adref. Yn y pen draw, gofynnodd ei thad iddi, "Wel, wnest ti fwynhau'r capel?" "O, do," meddai, "ond doeddwn i ddim yn meddwl llawer o'r dyn tu ôl i'r cownter!"

Gawn ni feddwl am foment am y rhai sydd "tu ôl i'r cownter" – hynny yw, yn y pulpud! – yn ein capeli, Sul ar ôl Sul? Yn Synod Cymru, rydym yn parhau i ganolbwyntio yn ystod y flwyddyn gyfundebol hon ar drydedd thema "Ein Galwad" yr Eglwys Fethodistaidd, sef gwasanaethu, wrth i ni geisio "Datblygu Ein Galwad" fel Synod, Cylchdaith, Ardaloedd, capeli ac fel Cristnogion unigol yn ein prosiect pedair blynedd. Felly gawn ni feddwl am y rhai sy'n gwasanaethu trwy arwain ein gwasanaethau – ein gweinidogion, ein Pregethwyr Lleol, ein pregethwyr gwadd o enwadau eraill, a phawb sy'n arwain ein haddoliad ar achlysuron niferus ac amrywiol. Mae addoli'r Duw Hollalluog yn perthyn i'r eglwys gyfan, ond mae gennym ni i gyd reswm i fod yn ddiolchgar i'r rhai sy'n gwasanaethu yn ein gwasanaethau.

Mae'n rhaid i bob gweinidog (*presbyter*) yn yr Eglwys Fethodistaidd fod yn Bregethwr Lleol Llawn Cydnabyddedig (*Fully Recognised*) cyn cael ei d/derbyn ar gyfer hyfforddiant fel gweinidog. Mae hyn yn golygu dilyn cwrs fel *Addoli: Arwain a Phregethu* am ddwy flynedd o leiaf, tra bydd yr unigolyn wrthi'n ennill profiad digonol fel pregethwr mewn gwahanol sefyllfaoedd. Mae hyn yn dweud llawer am y pwyslais y mae'r enwad yn ei roi ar arwain addoliad a phregethu: mae ein safonau'n uchel iawn. Mae'n rhaid i bawb sy'n cael ei d/derbyn i'w hyfforddi ar gyfer gweinidogaeth Urdd y Diaconiaid Methodistaidd fod yn Arweinydd Addoliad Cydnabyddedig, ar ôl dilyn cwrs am o leiaf un flwyddyn, ac mae rhai o'n Diaconiaid yn Bregethwyr Lleol

Llawn Cydnabyddedig hefyd, fel rhan o'u galwedigaeth hwythau. Mae'n rhaid imi gyffesu fy mod i'n eithaf cenfigennus o'r rhai sydd wedi cael eu galw i fod yn Bregethwyr Lleol. Mi ges i fy ngalw, rwy'n credu, i fod yn weinidog (*presbyter*), a dim ond rhan o fod yn weinidog yw pregethu, er mor bwysig ydyw. Mae gan y rhai a alwyd i dderbyn hyfforddiant a gwasanaethu fel Pregethwyr Lleol, fel pobl leyg, heb gael eu hordeinio, alwad uchel sy'n bwysig iawn, dwi'n meddwl, ac rydym ni i gyd yn cael ein bendithio ganddynt.

At hynny, mae gennym bobl nad ydynt wedi eu hyfforddi yn ffurfiol o gwbl ond sydd yn fodlon arwain addoliad a threfnu Cyfarfodydd Gweddi a chymryd rhan ar y Sul pan fydd angen. Mae'r amrywiaeth o bobl sy'n gwasanaethu yn ein gwasanaethau'n eang iawn! Ac mae gennym ni elfen arbennig, ychwanegol, yn Synod Cymru, wrth gwrs. Mae gennym bregethwyr, ordeiniedig a lleyg, sydd â'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt ond sydd wedi dysgu (neu yn dysgu) Cymraeg er mwyn gwasanaethu ar y Sul. Er fy mod i fy hun yn eu plith, hoffwn dalu teyrnged i'r bobl hyn a diolch i Dduw amdanynt. Nid pob pregethwr fyddai'n fodlon derbyn y fath her, i bregethu mewn iaith nad yw'n iaith gyntaf iddo neu iddi.


Ond mae gwasanaethu yn ein gwasanaethau'n perthyn i ni i gyd, on'd ydyw? Cofiw'n am ein horganyddion, ac am y blaenoriaid/swyddogion sy'n edrych ar ôl popeth, ac am bob aelod ffyddlon yn ein cynulleidfaoedd. Cefais fy hyfforddi i anfon rhifau'r emynau ar gyfer yr organydd erbyn y dydd Iau cyn y Sul, ond mae'n braf pan fydd rhywun o'r capel yn cysylltu cyn hynny. Cefais fy hyfforddi hefyd i gyrraedd tuag ugain munud cyn dechrau'r gwasanaeth (er imi fethu weithiau!), ac mae'n braf pan fydd rhywun eisoes yn y capel i roi croeso. Mae'n braf gweld rhifau'r emynau i fyny ar y bwrdd yn barod, a chanfod gwydr o ddŵr ffres yn y pulpud. Mae'r pethau hyn yn rhan o'n haddoliad hefyd, yn rhan o'r gwasanaeth a gynigiwn i'n gilydd ac, uwchlaw pob dim, i Dduw. Mae'n fraint ei wasanaethu. Diolch iddo!

Dymuna'r Parchedig Owen Evans a'r teulu ddiolch am bob cydymdeimlad ac am y cyfraniadau a dderbyniwyd tuag at Gymdeithas Alzheimer a Chymorth Cristnogol er cof am Mrs Margaret Evans.

# CNOI CIL

gan GWYNDAF ROBERTS

Ym marwolaeth y Dr Glyn Tegai Hughes, ar y 10fed o Fawrth eleni, fe gollodd Cymru ysgolhaig, llenor a beirniad llenyddol o'r radd flaenaf, fe gollodd yr Eglwys Fethodistaidd hithau un a fu'n pregethu'n gynorthwyol ers 1942 ac yn aelod ffyddlon a gweithgar o Gymdeithas Hanes yr enwad.



*Dr Glyn Tegai Hughes*

Ganwyd ef yng Nghaer ar lannau'r afon Ddyfrdwy, yn fab i'r Parchedig John Hughes a'i wraig Keturah. Un o Dregarth oedd John Hughes (1891-1985) ac yn fab i chwarelwr a dreuliodd ei oes yn trin y garreg las. Aeth brawd i John Hughes, sef William Hugh Hughes (1898-1981) yntau i'r weinidogaeth gan wasanaethu'r Wesleaid yn ffyddlon gydol ei oes. Roedd gan Glyn le cynnes yn ei galon i'w ewyrth ac fe fyddai bob amser yn cyfeirio'n annwyl iawn hefyd at ei gefnder Islwyn sef mab y Parchedig W H Hughes.

Fel mab i weinidog Wesla fe fu Glyn Tegai yn byw mewn sawl man gan gynnwys y Drenewydd, Lerpwl a Manceinion. Treuliodd beth amser fel disgybl

yn ysgol breswyl Tywyn, Meirionnydd lle y dechreuodd ddyysgu Almaeneg. Addysgwyd ef yn y Liverpool Institute ac yn Ysgol Ramadeg Manceinion cyn mynd i Goleg Corpus Christi Caergrawnt lle enillodd radd dosbarth cyntaf a derbyn ei ddoethuriaeth. Yn 1957 priododd â Margaret Vera Herbert, M.A, o Brisbane Awstralia wedi iddynt gyfarfod mewn cynhadledd Wesleaid yn UDA. Roedd ei ddarpar wraig yno ar ran Wesleaid Awstralia yn Glyn Tegai yn cynrychioli Wesleaid Cymru. Wrth hwylio'n ôl i Brydain ar y Queen Mary fe ddyweddiodd y ddau tra bo'r rhan fwyaf o'r teithwyr yn gwrando ar gyngerdd gan neb llai na Liberace!

Bu Dr Glyn yn darlithio mewn Saesneg ym Mhrifysgol Basel yn y Swistir rhwng 1951-53 ac yna ym Manceinion o 1953 i 1964. Rhwng 1964 a 1989 ef oedd Warden cyntaf Gregynog a dan ei arweiniad fe ddaeth y Neuadd yn ganolfan nid yn unig i'r Brifysgol ond yn fan lle'r ail sefydlwyd gwasg ysblennydd Gregynog. Yn ystod ei gyfnod ef hefyd y daeth Gŵyl Gerdd Gregynog i fodolaeth gan ailgydio megis yn yr hyn a wnaeth y Chwirydd Davies wedi iddyn nhw brynu'r ystâd yn 1920.

Yn ystod y blynyddoedd 1950, 1953 ac 1959 fe fu'r Dr Glyn Tegai Hughes yn ymgeisydd ar ran y Rhyddfrydwyr yn etholaeth Gorllewin Dinbych. Rwyf yn cofio yn dda ei glywed ef a'r ymgeiswyr eraill yn 1955 ac 1959 yn areithio yn Neuadd yr Eglwys yn yr Hen Golwyn. Y Neuadd honno gyda llaw oedd safle Eisteddfod Genedlaethol Hen Golwyn yn 1941 a'r man lle bu dadl ffyrnig rhwng Saunders Lewis ac W J Gruffydd. Nid wyf yn cofio dim ffyrnigrwydd yn areithiau Dr Glyn Tegai ond yr hyn a'm trawodd oedd coethder ei ymadrodd, boed hynny yn Gymraeg neu Saesneg. Fe ddaeth yn ail agos iawn i'r Ceidwadwyr ac mae'n syn meddwl beth a fyddai wedi digwydd pe byddai wedi llwyddo i fynd i San Steffan.

Ar hyd y blynyddoedd tra bûm yn byw yn Llanfair Caereinion fe dderbyniais sawl cymwynas o'i law. Cofiaf gyda diolch am y cyfle a ddaeth i'm rhan fel un o bregethwyr Cylchdaith Powys i fynychu'r cyd-gyfarfodydd â phregethwyr a Gweinidogion Cylchdaith Bro Hafren a'r Trallwm yn Rhyd y Gro, sef cartref Dr Glyn Tegai. Roedd y cyfarfodydd hyn yn gyfle i gyd-drafod, a chyd-fwyta seigiau o'r barbeciw oedd o dan ei ofal personol ef ei hun. Roedd yr ardd yn Rhyd y Gro yn werth ei gweld a'r garddwr yntau wrth ei fodd yn dwyn sylw at goed a blannodd yno dros y blynyddoedd.

Roedd Dr Glyn Tegai wedi cyhoeddi cyfrolau pwysig yn yr Almaeneg, Saesneg a Chymraeg. Yn ôl y Dr Derec Llwyd Morgan mae ei gyfrol yn y gyfres, *Writers of Wales*, yn un o'r pethau gorau a ysgrifennwyd ar Pantycelyn. Campwaith mawr Dr Glyn Tegai yw ei gyfrol

*Islwyn* yn y gyfres *Dawn Dweud* a gyhoeddwyd yn 2003. Un o'r dylanwadau mwyaf ar Islwyn (William Thomas 1832-78) oedd marwolaeth Anne Bowen sef y ferch ifanc roedd ar fin ei phriodi. Fel canlyniad i'r trychineb hwnnw cyfansoddodd Islwyn ddwy gerdd hir o dan yr un teitl sef *Y Storm*. Yn wir y cerddi hyn yw pinacl gwaith Islwyn. Mae'r Dr Glyn Tegai yn olrhain hanes y bardd ac yn llwyddo i ddangos fod Islwyn ymhell o fod 'y methiant mwyaf ysblennydd yn hanes ein llên', chwedl R Williams Parry, ond mai ef oedd bardd mawr Cymru yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Efallai bod cyfrol Dr Glyn Tegai yn gwneud ychydig bach o iawn dros y ffaith bod emyn mawr Islwyn, *Gwêl uwchlaw cymylau amser, O! fy enaid gwêl y tir*, wedi'i adael allan o *Caneuon Ffydd!*

Ers cryn amser bellach roedd Dr Glyn Tegai yn gweithio ar gasgliad o fywgraffiadau am rai o enwogion Sir Drefaldwyn. Y broblem a gafodd wrth geisio dwyn y gwaith i ben oedd y byddai'n darganfod cymeriadau eraill o'r sir a oedd yn haeddu bywgraffiad. Da yw deall y bydd y gyfrol nesaf a ddaw o Wasg Gregynog yn cael ei chyhoeddi er cof am Dr Glyn Tegai. Gobeithio hefyd y bydd y bywgraffiadau yn gweld golau dydd ac y bydd rhywun yn gweld yn dda i gynnwys Dr Glyn Tegai Hughes ymhlith rhagorolion y sir. Wedi'r cyfan roedd wedi treulio mwy na hanner ei oes yn Nhregynon ac wedi codi statws Neuadd Gregynog, rhoi sylfaen gadarn i S4C a chyhoeddi cyfrol fawr ei fywyd wrth fyw ym Mwynder Maldwyn.

Cynhelir

## Cyfarfod Gwobrwyo Ffyddloniaid yr Ysgol Sul â'r Fedal Gee

ar ddydd Iau Medi 28, 2017  
yn Eglwys Emaus, Bangor  
am 3.00 o'r gloch

Derbynnir enwebiadau drwy lenwi'r ffurflen enwebu sydd i'w chael drwy law Nerys Siddall.  
Rhaid dychwelyd y ffurflen erbyn dydd Gwener Mehefin 23, 2017.

Mae'r gofynion llawn parthed enwebu unigolyn i'w cael ynghlwm â'r ffurflen, ond carem nodi bod rhaid i'r sawl a enwebir fod yn 75 oed neu'n hŷn ac yn parhau i fynychu'r ysgol Sul ar ddyddiad cau'r enwebiadau.

Am wybodaeth bellach neu am ffurflen enwebu cysylltwch â

**Nerys Siddall,**

**Bryn Cefni, Llanuwchllyn,  
Y Bala, Gwynedd, LL23 7TL  
01678 540777  
medalaugee@yahoo.com**

### Gweithredu Dros Blant

Hoffem ddiolch i'r canlynol am eu rhoddion, sydd wedi dod i law yn ystod y misoedd diwethaf, tuag at Gweithredu dros Blant:

Ardal De Gwynedd £250.00

Clwb Plant Eglwys St

Thomas, Mynydd y Fflint £137.20

Casgliad wrth y bwrdd yng nghyfarfod y Synod, 22 Ebrill £41.04

**Anfonwyd cyfanswm o £428.24 yn enw Synod Cymru.**

Gyda diolch am bob cyfraniad, Parchg. Marc a Mrs Margaret Morgan

# ‘Hyn sydd yn ofid im’

gan RONA MORRIS

Daeth nifer dda ynghyd i gapel Seilo, Llandudno, bnawn Sadwrn Ebrill 29ain i gyfarfod y Gwanwyn a drefnwyd dan nawdd pwyllgor Merched Methodistiaidd yng Nghymru.

Daethant yno o ganol rhialtwch a miri y ffair fawr ar strydoedd Llandudno i chwilio am “heddwch”. Dyma’r testun a ddewiswyd gan ein siaradwr gwadd Mr Dafydd Iwan fel dolen gyswllt, wrth iddo ein harwain drwy fyfyrdd, cerdd a chân i dreulio orig dawel yn meddwl am broblemau dyrys ein byd. Er mawr dristwch iddo, gwêl nad oes fawr wedi newid yn ystod yr hanner can mlynedd ers iddo ddechrau ymddiddori yn helyntion gwleidyddol y byd. Tra yn fyfyrwr clywodd am ddyllanwad unigolion megis Victor Jara ac Óscar Romero. Cafodd ei ysgogi gan eu hanes i gyfansoddi caneuon sydd yn tystio i’w ffydd, “fel bod eu gwaed nhw yn hedyn o obaith” i ni.

Cawsom ein hannog ganddo i edrych y tu hwnt i orwelion ein bro a’n gwlad, i estyn llaw i gyfarch a chefnogi eraill o draddodiadau gwahanol. Rhaid i ni weithio er mwyn dangos bod efengyl Crist yn ffordd amgenach i achub y byd na pharatoi at ryfel.



*Merthyron yr 20fed ganrif, Abaty Westminster*

Rhaid cychwyn wrth ein traed gan wisgo heddwch Duw am ein traed a gafael yn dynn yn nharian ffydd wrth gymryd camau bach ymlaen. Gan ddechrau gyda ni ein hunain, mentrwn i’r dyfodol i ledaenu y newyddion da, a thystio bod rhwydwaith dirgel Duw yn parhau i fod yn effeithiol ac yn berthnasol. Fe allwn greu cadwyn o obaith a goleuni mewn byd sydd yn llawn cysgodion.

Cawsom bnawn bendithiol yng nghwmni ein gilydd. Diolch i bawb a gyfrannodd i lwyddiant y cyfarfod.

# ‘Ni orffwysaf nes cael gweld’



gan GWENDA DAVIES

Darllen erthygl ysbrydoledig Angharad Tomos yn y *Gwyllydydd* diwethaf wnes i a hynny’n fy arwain i fynd i chwilota’r tŷ ’ma am lun camera a dynnwyd yn y pumdegau. Diolch, Angharad, am chwip o syniad, sef dysgu un o emynau William Williams, Pantycelyn ar y cof, a hynny’n wythnosol. Dwi ddim wedi cychwyn eto ond rwy’n benderfynol o drio!

Ond i fynd yn ôl at y llun. Pan symudais i’n cartref newydd bron i dair blynedd yn ôl, dyma gwyle i bori yn hen luniau’r teulu. Felly gwyddwn fod y llun ar gael mewn rhyw focs neu’i gilydd. A thrwy ryfedd wyrth dois o hyd iddo heno.

Llun ydyw o fy nhad, y Parchedig John Owen, fu’n weinidog gyda’r Hen Gorff ar gapel Moriah, Llanbedr, yn Ardudwy, capel y Gwynfryn a chapel bach Cwm Nantcol am wyth mlynedd ar hugain hyd 1977. Hefyd yn y llun mae y Parchedig Abel Ffowc Williams, fu’n weinidog yn

Llwyngwrl yn yr un cyfnod. Maes o law ymfudodd Abel Ffowc (fel y galwai fy nhad ef) i fod yn weinidog i Ynys ac yno y bu farw rai blynyddoedd yn ôl mewn oedran mawr.

Yr hyn sydd yn arbennig am y llun yw bod y ddau wedi mynd ar bererindod i Bantycelyn ym mis Mehefin 1956 a gwelir y ddau ohonynt yn sefyll o flaen y ffermdy. Mae llun arall ohonynt hefyd yng nghlos y fferm gyda Mrs Williams, sef mam y perchennog presennol, rwy’n tybio. Does gen i run syniad sut y teithiodd y ddau yno. Fu ’nhad erioed yn berchen car ac felly mae’n siŵr mai Abel Ffowc oedd yn gyfrifol am y gyrru.

Flynnyddoedd yn ddiweddarach ysgogodd y llun yr awydd ynof finnau i fynd ar daith i Bantycelyn. Tra ar wyliau yn yr ardal yn Awst 2009 dyma adael tref Llanymddyfri a chychwyn am Bantycelyn. Cael trafferth mawr i gael hyd i’r fferm. Doedd y satnaf ddim yn bodoli yn tŷ ni adeg hynny! Wedi dod o hyd i Bantycelyn dyma anelu am giât y

fferm ac aros i ddarllen y murlun ar y wal sydd yn dweud hanes y Pêr Ganiedydd.

Tra roeddwn yn darllen daeth newyddion Radio Cymru ar yr awyr am un o’r gloch. Y prif newydd oedd marwolaeth y bardd a’r Archdderwydd Dic Jones. Mi gofiat y dyddiad tra bwyf byw: Awst 18, 2009. Diwrnod marwolaeth Dic a diwrnod y profais droedio yn ôl traed Pantycelyn. Roedd y derbynnyd gawson ni gan y teulu yn gynnes ac er nad oedden ni wedi cysylltu ymlaen llaw roedd eu parodrwydd i ddangos Pantycelyn inni ac i siarad am yr emynydd yn ddiffuant a chroesawgar dros ben. Clywais fod un o ferched y teulu yn ei gwely wedi damwain greulon ddaeth i’w rhan gyda’r tractor yn un o gaeau’r fferm. Gobeithio iddi gael llwyr iachâd.

Diolch am y profiad. Diolch am gael cyfarfod teulu’r emynydd ar eu haelwyd ym Mhantycelyn a diolch am gael yr



ysgogiad i fynd ar bererindod wedi gweld y llun o’r pumdegau. Wrth deithio oddi yno ar ddiwrnod godidog o Awst, yr hyn oedd yn mynd drwy fy meddwl oedd beth fyddai ymateb yr emynydd i farwolaeth bardd o Gymro yn yr unfed ganrif ar hugain ac i ddamwain greulon merch Pantycelyn. Pwy a wŷr?

# CAPEL NI YN EGLWYS IESU

## Preswylfa, Cyffordd Llandudno

**CYFARFODYDD UNDEBOL Y PASG**  
Cafwyd tair oedfa fendithiol iawn yn ystod y Pasg. Cynhaliwyd oedfa undebol Cymun y Groglith yn Eglwys Pensarn o dan arweiniad y Parchedig Brian Wright. Yna ar Sul y Pasg cydaddoli yn Eglwys Preswylfa. Gwasanaethwyd gan y Parchedig Roger Roberts, Llandudno a'r Parchedig Richard Glyn Jones, Llanrwst.

### GWELLHAD BUAN

Anfonwn ein dymuniadau gorau i'n horganydd Mrs Jane Jones a gafodd anaf i'w hysgwydd yn ddiweddar.

*Gohebydd - Eirian Jones*

## Pendref, Dinbych

### OEDFAON

Parhawn i addoli gydag aelodau Peniel yn Ffestri Pendref ac Eglwys Peniel Llanellwy. Cynhaliwyd oedfaon bendithiol a diolchwn i'r rhai a arweiniodd y gwasanaethau sef Elizabeth Jones, Enid Mair Davies, y Parchedig Tudur Rowlands a David Barker Jones. Dydd Sul 5ed o Fawrth cynhaliwyd oedfa undebol tref Dinbych ym Mhendref a chymerwyd rhan gan gynrychiolwyr o Gapel Lôn Swan, y Capel Mawr, Capel y Fron, Eglwys y Santes Fair, Capel Brwews a Chapel Pendref. Cawsom anerchiad amserol, diddorol a chynhwysfawr gan Mr Tom Williams, Dinbych. Buom hefyd yn cynnal cyfarfodydd gweddi ym Mhendref ac ym Mheniel ac unwaith eto diolch i bawb a gymerodd ran.

Cynhaliwyd gwasanaeth Dydd Gweddi Byd Eang y Chwirydd gan gapeli Cymraeg Dinbych yng Nghapel Lôn Swan. Cymerwyd rhan yn y gwasanaeth bendithiol yma, ar ran Pendref, gan Margaret Sellers a Mary Jones. Darparwyd lluniaeth ysgafn ar ddiwedd y gwasanaeth gan chwirydd Lôn Swan.

Bore dydd Gwener y Groglith cynhaliwyd gwasanaeth undebol dan arweiniad y Parchedig Tudur Rowlands. Cynhelir yr oedfa arbennig yma ym Mhendref ers blynyddoedd lawer.

### CYDYMDEIMLO

Trist oedd clywed am farwolaeth un o'n haelodau sef Mrs Ann Edwards. Bu Ann a'i diweddar wr David yn byw yn y Tŷ

Capel ac yn gofalu am y capel am flynyddoedd lawer. Cydymdeimlwn â'i mab Brian. Cydymdeimlwn â Beti Roberts a'r teulu ar golli ei brawd, y Parchedig Ganon Geraint Edwards.

### DYMUNIADAU GORAU

Dymunwn wellhad buan i Hywel Evans, Diana Roberts ac Elinor Jones.

### FFAIR WANWYN

Cynhaliwyd ein Ffair Wanwyn yng Nghanolfan Eirianfa, Dinbych ar 6 Mai.

### DAEAREG DYFFRYN CLWYD

Nos Fercher 10 Mai cynhaliwyd noson gymdeithasol yng nghwmni'r Dr Wyn Hughes gyda sgwrs am Ddaeareg Dyffryn Clwyd.

*Gohebydd - Mary Jones*

## Ebeneser, Trefor, Môn

### CYDYMDEIMLO

Anfonwn ein cydymdeimlad at y Parchedig Ddr O. E. Evans a'r teulu ar ôl colli Mrs Margaret Evans. Cydymdeimlwn hefyd â theulu'r diweddar William Williams Bryndu. Bu Mr Williams yn dod atom am flynyddoedd i bregethu a byddai'n aml yn cerdded rhai milltiroedd i'w gyhoeddiad.

### CROESO

Pleser oedd cael cyfarfod ein darpar weinidog, y Parchedig Richard Gillion a'i wraig Lesley yn y capel yn ystod eu hymnwliad ag Ardal Môn ac Arfon.

Fe'u cyflwynwyd i ni gan y Parchedig Ddr Jennie Hurd. Edrychwn ymlaen at gael ei wasanaeth o fis Medi ymlaen gan obeithio y bydd y ddau yn cartrefu'n fuan yn eu hardal newydd.

*Gohebydd - Carys Thomas*

## Horeb, Croesoswallt

### Y GYMDEITHAS DDIWYLLIADOL

Ym mis Ionawr cawsom noson ddifyr pan ddaeth y Parchedig Gwyndaf Richards atom i sgwrsio am Eisteddfodau Cenedlaethol Glannau Merswy. Yna yn Chwefror croesawyd Gareth Vaughan Williams, Wrecsam atom a thestun ei sgwrs oedd "Taith ryfeddol Huw Hughes". Cawsom hefyd swper blasus i ddathlu Gŵyl Dewi, pan gawsom ein diddanu gan Gareth Vaughan a Gareth Griffiths yn canu i gyfeiliant Andrew Thomas.

### CYDYMDEIMLO

Bu farw Mrs Margaret Jones, priod y Parchedig Gwilym O. Jones, ar ôl cystudd hir a blin. Cafodd ofal tyner gartref gan ei gŵr, mewn ysbyty ac mewn cartref gofal yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Bydd bwlch mawr ar ei hôl gartref ac yn y capel. Cydymdeimlwn yn gywir iawn â'r Parchedig Gwilym O. Jones a'r teulu yn eu profedigaeth.

### PREGETHWYR

Diolchwn i'r cyfeillion canlynol am eu gwasanaeth: Y Parchedigion Gwilym O. Jones, Rhys ap Ogwen Jones, Siôn Aled Owen, Goronwy P Owen, Edwin Hughes, Dilys Jones ac Eric Greene; Mr Dafydd Barker Jones, Mr Tom Ellis, Mr Richard Jones, Mrs Beryl Vaughan, Mr Eurwyn Pierce Jones.

*Gohebydd - Eurwyn Jones*

## Eglwys Unedig Colwyn

### CROESO

Braf iawn yw cael Arfon yn ôl yn ein plith yn dilyn ei waeledd a chyfnod anodd iawn yn ei fywyd. Croeso'n ôl at dy ffrindiau, Arfon! Dymuniadau gorau hefyd i'w ŵyr Iolo yn Eisteddfod yr Urdd ym Mhen-y-bont.

### CYDYMDEIMLO

Gyda thristwch dwfn y cofnodwn farwolaeth Mrs Blodwen Jones, Bay View gynt. Bu hi a'i diweddar wr Alf yn ffyddlon a gweithgar dros ben am flynyddoedd maith yn Nisgwylfa. Cydymdeimlwn yn ddwys â Delyth a'r teulu oll.

### CYFARFOD Y GWANWYN

Yng Nghyfarfod y Gwanwyn Merched Methodistiaidd ar 29 Ebrill cafwyd sgwrs a chân gan Dafydd Iwan ar y thema 'Heddwch'. Cafwyd lluniaeth ardderchog yn dilyn y cyfarfod.

*Gohebydd - Rhiannon Jones*

## Ebeneser, Treuddyn

### CROESO I'R BYCHAN

Llongyfarchiadau i Mrs Gweryl Hughes ar ddod yn nain i William Edward Lindsay, brawd bach i Evie. Anfonwn ein dymuniadau gorau i'r teulu bach sy'n byw yn yr Alban.

### EIN HADDOLIAD YN EBENESER

Yn ystod Ebrill a Mai cynhaliwyd gwasanaethau dan ofal ein gweinidog y Parchedig Eirlys Gruffydd Evans, Mrs Siân Williams, Mrs Elizabeth Jones a'r Parchedig Marc Morgan. Edrychwn ymlaen at ein Rali Flynyddol a gynhelir ar Fehefin 11eg, o dan ofal Mrs Siân Williams. Hefyd, byddwn yn croesawu'r Parchedig Ddr Jennie Hurd atom unwaith eto ar Orffennaf 30ain.

### Y GYMDEITHAS

Ar nos Fercher, Mehefin 7fed ein siaradwr gwadd yn y Gymdeithas fydd

# CAPEL NI YN EGLWYS IESU

Mr David Davies, cyn aelod sy'n awr yn byw yng Nghastell Newydd Emlyn. Braf fydd cael ei weld ym mro ei febyd unwaith eto. Brethyn Cartref yw testun ein cyfarfod ar y 5ed o Orffennaf.

## ARWERTHANT LLWYDDIANNUS

Cawsom arwerthiant llwyddiannus ar Fai 6ed pan agorwyd y digwyddiad gan ein gweinidog y Parchedig Eirlys Gruffydd Evans. Roedd y tywydd yn ffafriol ac fe'i mynychwyd gan nifer dda o ffrindiau'r capel. Diolch o galon i bawb am eu presenoldeb.

*Gohebydd – Glenys Davies*

## Salem, Rhyd y Foel

### GŴYL DDEWI

Nos Iau, Mawrth 9fed, cynhaliwyd noson i ddathlu gŵyl ein nawddsant. Yn dilyn swper blasus a drefnwyd gan y chwirydd, cafwyd hwyl a chwerrthyn wrth wrando ar hanes a throeon trwstan Mari Gwilym sef y wraig wadd eleni.

### SUL Y PALMWEYDD

Ddydd Sul Ebrill 9fed sef Sul y Palmwydd neu Sul y Blodau cafwyd oedfa deuluol arbennig iawn dan arweiniad Mrs Catherine Blythin, merch y diweddar Barchedig J. Haines Davies. Derbyniodd Catherine dusw o flodau gan bob un o'r plant a'u trefnu ar fwrdd y Cymun. Cawsom sgwrs bwrpasol gan Catherine ac yna gydganu "Pwy wnaeth y sêr uwchben" ynghyd â'r symudiadau a phawb yn mwynhau. Cawsom baned a bisgedi i ddilyn yn y festri.

*Gohebydd – Siân Price*

## Ebeneser, Caernarfon

### ER COF ANNWYL

Ar ôl dioddef cystudd blin, bu farw Mair Roberts sef priod annwyl T. Arfon Roberts, cyn-drysorydd yr eglwys. Cydymdeimlwn yn ddwys â'r teulu oll yn eu profedigaeth. Roedd Mair yn gymeriad arbennig a chanddi hiwmor iach – byr o gorffolaeth ond yn meddu ar egni nerthol. Yn bennaf oll, roedd ei charedigrwydd yn ei gwneud yn boblogaidd iawn yn y gymdeithas ac ymhlith ei chydweithwyr yn yr eglwys. Gyda chefnogaeth frwd a chariad y teulu, parhaodd Mair i wenu drwy bopeth.

Gyda thristwch y clywsom am farwolaeth Margaret Evans, priod hynaws y Parchedig Ddr O.E. Evans ac aelod yn Ebeneser. Am flynyddoedd bu Margaret yn un o swyddogion blaenllaw Gwaith Cenhadol y Chwirydd a braint yn wir oedd cael cydweithio â hi. Roedd yn wraig osgeiddig a bonheddig. Cynhaliwyd ei handladd yn Eglwys Rhos-y-gad, Llanfair Pwllgwyngyll o dan arweiniad y Parchedigion Gwynfor Williams a Dennis Griffiths.

### DYMUNIADAU GORAU

Dymunwn yn dda i Nel Williams, Tŷ Capel, sydd wedi cael llawdriniaeth sylweddol yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar. Yr un yw ein cofon at Ellen Jones, sydd wedi derbyn triniaeth oherwydd anhwylder ar y galon. Dymunwn wellhad buan hefyd i Ronnie Hughes a Lil Watkins.

### RHODD I EBENESER

Drwy garedigrwydd Blodwen Griffiths, derbyniodd yr eglwys siec anrhydeddus er cof am ei phriod T. Glyn Griffiths a fu'n swyddog ffyddlon yn yr eglwys hon am gyfnod maith.

### CROESO

Roeddem yn falch iawn o gael croesawu'r Parchedig Richard Gillion a'i wraig

Lesley, a ddaeth yma i ymweld â ni ddiwedd Ebrill. Edrychwn ymlaen at eich cwmni ym mis Medi.

*Gohebydd – Branwen L. Edwards*

## Tabernacl, Llanfyllin

### LLONGYFARCHIADAU

Llongyfarchiadau i Eos, merch Llinos a Meirion Jones, Bryncoch ar ei llwyddiannau yn Eisteddfod Rhanbarth Maldwyn yn y Drenewydd. Enillodd Eos y wobr 1af ar yr Unawd Cerdd Dant Blwyddyn 2 ac iau, a hefyd ar yr Alaw Werin i Blant Blwyddyn 6 ac iau. Mi fydd yn cystadlu ar y gystadleuaeth Cerdd Dant yn y Genedlaethol ym Mhenybont-ar-Ogwr. Dymuniadau gorau iddi.

### GWELLHAD BUAN

Dymuniadau gorau i Tom Ellis sydd wedi cael llawdriniaeth i'w law.

### SUL Y PASG

Cynhaliwyd Oedfa Deuluol ar Sul y Pasg yn y Tabernacl, gyda phlant a rhieni ac athrawon yr Ysgol Sul yn cymryd rhan. Cafwyd sgwrs gan Tom Ellis a chyflwynodd Tom wy Pasg i bob un o'r plant. Yr organydd oedd Eldrydd Jones a thalwyd y diolchiadau gan Robin Hughes.

### BEDYDDIO

Ar 1 Ebrill bedyddiwyd efeilliaid sef Emmi Joan ac Iris Anne Cassidy, plant Gary ac Elen Cassidy o Fanceinion. Mae Elen o ardal Talwrn Cwm Nant y Fyllon. Roedd nifer dda yn bresennol o Fanceinion a hefyd y teulu yng Nghwm Nant y Fyllon. Gweinyddwyd gan y gweinidog y Parchedig Gwyndaf Richards. Ar 30 Ebrill cynhaliwyd gwasanaeth bedydd Robyn Soffia, merch Wyn a Delyth Evans ac wyres i Hilda Evans. Roedd y gwasanaeth dan ofal Mr Tom Ellis gyda Mrs Llywela Roberts wrth yr organ.

*Gohebydd – Robin Hughes*



*Salem, Rhyd y Foel*

# CAPEL NI YN EGLWYS IESU

## Pont Robert

### LLONGYFARCHIADAU

Rydym yn llongyfarch Rhodri Jones, Llanfyllin unwaith eto ar ennill anrhydedd ym myd yr opera pan ddaeth yn gyntaf mewn cystadleuaeth bwysig. Llongyfarchwn hefyd frawd Rhodri, sef Gerwyn, a gafodd ganlyniadau ardderchog yn y Coleg yng Nghaerdydd. Mae'r ddau yn wyrion i Gwen a Tegwyn, Penwtra.

Llongyfarchiadau i Anni Vaughan Jones o Brynderwen ar ei llwyddiant yn Eisteddfod Sir yr Urdd lle daeth yn gyntaf ar yr Unawd Alaw Werin yn ogystal â bod yn aelod o Barti Unsain Ysgol Pont Robert a ddaeth yn gyntaf. Pob dymuniad da iddynt yn Eisteddfod Penybont-ar-Ogwr.

Pob dymuniad da i Sioned Watkins (wyres Llinos a Bryan) sy'n parhau â'i hastudiaethau Nyrsio yn Birmingham ac i Hannah Parry (merch Sharon Rhosymenyn) sydd wedi dathlu ei phen-blwydd yn 21 oed.

### GWELLHAD BUAN

Dymunwn wellhad buan i Gwen Penwtra, gan fawr obeithio y bydd yn ôl hefo ni yn yr oedfaon yn fuan.

*Gohebydd – Margaret Blainey*

## Shiloh, Tregarth

### BEDYDD

Bedyddiwyd Greta Hywel Evans Hughes yn Shiloh ar 2 Ebrill. Mae Greta yn ferch i Ffion a Dion, Fferm Coedhywel, ac yn chwaer fach i Iago. Cafodd ei bedyddio gan ein cyn-weinidog, sef y Parchedig Philip Barnett, sydd bellach yn byw yn Almondery, ger Huddersfield yn Swydd Efrog. Roedd yn hyfryd gweld llawr y capel yn rhwydd lawn gyda theulu a ffrindiau'r fechan yn bresennol. Pob dymuniad da i'r teulu ifanc.

### DYMUNIADAU GORAU

Da clywed fod David Ellis Jones, Glan Gors, gartref o'r ysbyty ac yn cryfhau. Dymunwn wellhad llwyr a buan i Eirwen Williams, Tyddyn Dicwm, yn dilyn y ddamwain a ddaeth i'w rhan yn ddiweddar. Rydym yn meddwl amdanoch, Eirwen. Rydym yn falch iawn fod Wynn Williams yn gwella'n dda ar ôl cael llawdriniaeth i'w ben-glin, a dymuniadau gorau am wellhad buan hefyd i Eira Crocombe, Tai Teilwriaid.

### DRWS AGORED

Mae'r capel ar agor bob bore Gwener rhwng 10 a 12 o'r gloch i bobl droi i mewn am baned a sgwrs. Mae'r arbrawf yn llwyddiant – diolch yn fawr i'r rhai sy'n gweini ac yn paratoi.

### CROESAWU GWEINIDOG NEWYDD

Roedd yn hyfryd cael croesawu'r Parchedig Richard Gillion a'i briod Lesley i Shiloh fore Mawrth, Ebrill 25. Edrychwn ymlaen at eu cwmni pan ddaw Richard yn weinidog i Ardal Môn ac Arfon ym mis Medi.

### SUL Y BLODAU

Cawsom oedfa fendithiol yng nghwmni'r Parchedig Ddr Jennie Hurd a rhai o bobl ifanc Shiloh sef Ifan, Nel, Myfi, Gwenlli, Gwenno ac Iestyn, ar Sul y Blodau. Diolch i Jennie a'r bobol ifanc am eu neges o obaith. Mwynhawyd paned a sgwrs ar ddiwedd yr oedfa.

*Gohebydd – Gwenda Davies*

## Carmel, Mynytho

Ar brynhawn braf a chynnes o Wanwyn, sef dydd Sul Ebrill 23ain, cynhaliwyd yr oedfa olaf yng Ngharmel, Mynytho. Wedi dros ddau can mlynedd o dystiolaeth glodwiw, daeth cynrychiolwyr amrywiol ynghyd i ddirwyn yr achos i ben gan gynnwys cyn-aelodau, dau oruchwyliwr Ardal De Gwynedd ac aelodau o Horeb, capel yr Annibynwyr ym Mynytho. Llywyddwyd yr oedfa gan y Diacon Stephen Roe a chyfeiliwyd gan Mrs Jane Griffith, Mynytho (gynt o Nant M.C. Nanhoron). Yn ystod y gwasanaeth arbennig cafwyd anerchiad gan y Diacon Stephen; hanes yr achos gan Mr Dilwyn Thomas, trysorydd Carmel; gair o gyfarchion a diolch gan Mr Gwynfor Ellis, diacon, ar ran aelodau Horeb; ac ychydig o hanes y tu ôl i emyn gan un a godwyd i'r weinidogaeth yng Ngharmel sef y diweddar Barchedig Albert W. Jones. Cofiwyd hefyd am y diweddar Barchedig Gwilym I. Thomas, a fagwyd ym Mynytho ac a fu'n uchel ei barch gyda'r Wesleaid. Yn dilyn yr anerchiadau, cyfranogodd pawb o'r Cymun

Sanctaid. Methodd y cyn-weinidog, y Parchedig Gwyn C. Thomas, â bod yn bresennol oherwydd anhwylder. Bu'n gefn mawr i'r achos am rai degawdau. Bu'n oedfa hynod o fendithiol a theilwng o'r achlysur.

*Gohebydd – W. Arvon Roberts*

## Ardal Bathafarn

### GWASANAETHAU UNDEBOL

Cymerwyd rhan yng ngwasanaeth Dydd Gweddi Byd-eang y Chwiorydd eleni gan Audrey, Meta, Gwyneth ac Olwen o Fathafarn; pwyllgor y dref oedd yng ngofal y drafodaeth yn ystod y gwasanaeth. Mae'r cyfarfodydd hyn yn arbennig iawn gan gofio fod trigolion gwledydd y byd i gyd yn dilyn trefn y gwasanaeth yn eu haith eu hunain. Braff hefyd oedd cael dod at ein gilydd ym Mhendref i wasanaeth Cymun Gŵyl Ddewi dan arweiniad y Parchedig Tom Evans Williams, Henllan. Cafwyd gair o groeso gan Beti Wyn Evans.

### CYMDEITHAS CAPEL BATHAFARN

Hyfryd oedd cael cwmni'r Parchedig Dilys Jones o'r Amwythig, fu'n sôn am y cyfnod y bu hi a'i diweddar briod y Parchedig Alec Jones yn genhadon yn Ghana. Daeth â sawl gwrthrych roeddent yn eu defnyddio yn y wlad honno. Diddorol fod enw'r Parchedig Alec Jones wedi ei roi ar Ysgol Feithrin yno. Yn ystod y 1970au bu'r Parchedig Alec Jones yn arolygwr ar ein cylchdaith a bu ef a'i briod yn hynod o weithgar yma gan drefnu, ymhlith pethau eraill, daith i Benwythnos M.A.Y.C. yn Llundain. Cawsom ninnau brofiad fel ieuencid y cyfnod hwnnw o fynd o gwmpas capeli'r Gylchdaith i gynnal gwasanaethau, profiad a fu'n gymorth mawr i ni i gyd. Mae'r cyfeillgarwch wedi parhau drwy'r blynyddoedd. Hefyd cawsom noson o draddodiadau'r Pasg.

### CYDYMDEIMLO

Cydymdeimlwn yn ddwys â'r Parchedig Gwilym O. Jones, Croesoswallt, ym marwolaeth ei wraig Margaret. Cydym-





deimlwn hefyd â Ceinwen, o golli chwaer yng nghyfraith sef Margaret Evans, priod y Parchedig Owen E. Evans a chwaer i John Herbert Williams a'r diweddar Barchedig Joseph Williams. Hefyd bu i Gwyneth, Ceinwen, Arwel a'u teuluoedd golli merch i gyfnither yn sydyn iawn o Ysbyty Ifan. Meddyliwn amdanoch i gyd.

### COFION

Anfonwn ein cofion anwylaf at Eirwen Edwards, Bodlywydd Uchaf gynt, sydd wedi symud i gartref gofal yn y Rhyl. Dymuniadau gorau hefyd i Olwen Griffiths, Ifor Parry a Gretta Davies.

### SUL Y BLODAU

Braf oedd cael aelodau a ffrindiau ynghyd i'r gwasanaeth arbennig hwn. Cafwyd gair o groeso gan Elizabeth a theimladwy oedd gweld y plant a'r oedolion yn mynd â blodau at yr Allor. Arweinydd y gweithgareddau oedd Siôn Hughes. Cafwyd eitemau cerddorol hynod o raenus gan Elaine Williams, Lois, Osian ac Ynyr. Mae dyfodol disglair iawn iddynt. Brاف oedd cael cwmni Gwyn Hafod Elwy gyda'i lais tenor soniarus, yntau wedi bod yn dod atom am flynyddoedd lawer i gymryd rhan. Daeth Sylvia, ei ffrind, gydag ef. Pleser oedd cael croesawu'r Parchedig Marc Morgan atom a gwerthfawrogwyd ei anerchiad pwrpasol; brاف oedd gweld Margaret, ei briod, hefyd. Roedd y defosiwn yng ngofal Edwina, Marian ac Elwyn, Corwen, Siân o Wyddelwern ac Elfed o Lyndyfrdwy. Rhoddwyd y fendith gan y Parchedig Martin Evans-Jones.

Ymlaen wedyn i fwynhau lluniaeth blasus a baratowyd gan Mairwen Mosford gyda chymorth chwiorydd Bathafarn a chyfle i gymdeithasu'n brاف. Hyfryd oedd cael cwmni Ifor Parry a fu mor weithgar am flynyddoedd lawer yn Ardal Bathafarn, yntau yn derbyn gofal ym Mhlas Gwyn. Y cyfeilyddion oedd Rhian a Catrin. Diolchwyd i bawb gan Dafydd ac Elizabeth. Prynhawn bendithiol iawn ac mewn paratoad at ddigwyddiadau'r Pasg.

### GWASANAETHAU

Bu'r Chwaer Eluned Williams, y Parchedigion Martin Evans-Jones, Glyn Thomas a Dilys Jones yma yn cynnal oedfaon a diolchwn am eu cenadwri. Diolch i Rhian a Rhodri am ofalu am y capel a'r festri.

### MERCHED METHODISTAIDD YM MHRYDAIN

Aeth criw o gapel Bathafarn ar y bws gyda chyfeillion Llanrhaeadr ym Mochnant, Prestatyn a Llanelwy i gapel Seilo, Llandudno, lle cafwyd cân a sgwrs gan Dafydd Iwan. Yn ogystal fe gawsom gyfle i gael cinio a siopa yn y dref a the blasus ar y diwedd. Llywyddwyd gan Gwenda Humphries, Prestatyn. Diwrnod pleserus iawn yng nghwmni ein gilydd a chyfle i'r Ardaloedd ddod at ei gilydd.



### TAITH DRAMOR

Dymuniadau gorau i Rhian a Rhodri ar eu taith i Seland Newydd. Hwyl fawr i chi ac edrychwn ymlaen at glywed am eich profiadau yno.

*Gohebydd - Elizabeth Jones*

## St Paul, Aberystwyth

### BANER NEWYDD

Fel y cofnodwyd yn y rhifyn diwethaf, eleni rydym yn dathlu chwarter canrif er inni agor Canolfan Sant Paul. Fel rhan o'r dathliadau mae grŵp o weithwyr o'r ddwy gynulleidfa wedi bod yn brysyr yn gwneud baneri newydd ar gyfer yr adeilad. Dangosir yma lun o'r faner sydd erbyn hyn yn yr Oruwchystafell lle mae'r gynulleidfa Gymraeg yn addoli bob Sul.

### PROFEDIGAETH

Bu farw Mrs Dorothy Olwen Evans ('Dorothy Temperance') ar 13 Ebrill yn 87 mlwydd oed. Cafodd Dorothy ei geni yn Llundain ond yn ystod yr Ail Ryfel Byd daeth i fyw gyda'i thad-cu a mam-gu yn Nhaliesin lle roeddent yn berchnogion y Temperance Stores yn y pentref. Daeth yn aelod o Gapel Soar, Tre'r Ddôl. Wedi ysgol aeth i weithio yn y Gwasanaeth Sifil yn Llundain ac wedyn yn Aberystwyth. Priododd â Harri yn 1955 ac roedd ganddynt ddwy ferch, sef Menna a Meryl. Ers marwolaeth Harri roedd Dorothy yn byw yn Aberystwyth gyda Menna sy'n aelod ffyddlon a phrysur yn Sant Paul lle mae'n gwasanaethu fel trysorydd y gynulleidfa Gymraeg a'r Ganolfan. Bu farw Dorothy yn annisgwyl yn Ysbyty Athrofaol Cymru yng Nghaerdydd pan oedd yn ymweld â'i merch Meryl a'i hwyrion Gethin a Harri ym Mhenarth. Cynhaliwyd yr angladd yng Nghanolfan Sant Paul dan ofal y Parchedig Peter Thomas, gweinidog y Bedyddwyr yn Aberystwyth, cymydog a chyfaill i Dorothy, gyda chymorth y Parchedigion J. E. Wynne Davies a Terry Edwards. Fel cynulleidfa cydymdeimlwn yn ddwys â Menna a Meryl a'r teulu i gyd.

*Gohebydd - Lionel Madden*

## Ebeneser, Dolgellau

### YSBYTY

Dymunwn adferiad buan i Mrs Thelma Parry sydd wedi bod yn Ysbyty Maelor Wrecsam am gyfnod ond sydd gartref erbyn hyn.

### CYDYMDEIMLO

Cydymdeimlwn â theulu Mrs Peggy Walker a fu farw yn Ysbyty Gwynedd ar 5 Ebrill. Bu Mrs Walker yn selog iawn yn Ebeneser am flynyddoedd lawer. Er bod ei hiechyd yn ddigon bregus yn ddiweddar, roedd ganddi ddiddordeb mawr ym mhopeth ac edrychai ymlaen at briodas ei hŵyr, Llŷr, ar Sadwrn y Pasg, ond ni chafodd ei gweld.

### PRIODAS

Ar 15 Ebrill, o dan arweiniad y Parchedig Angharad Griffith, priodwyd Llŷr Roberts a Federica yn Ebeneser. Magwyd Llŷr yn Glanrhyd, Dolgellau a bu'n aelod ffyddlon o'r Ysgol Sul. Dymunwn bob hapusrwydd i'r ddau a Mali ac Ilan ar eu haelwyd yng Ngwlad yr Haf.

### TRËN

Mae gan Gymdeithas Treftadaeth y Dref arddangosfa yn festri Ebeneser sef model o'r rheilffordd o Ddolgellau i Benmaenpwl. Agorwyd yr arddangosfa i'r cyhoedd dros ŵyl y Pasg a bu gwirfoddolwyr o'r capel wrthi'n croesawu unrhyw un oedd eisiau taro i mewn i weld y capel a chael sgwrs a phaned.

### LLONGYFARCHIADAU

Llongyfarchwn Alan ac Alison Woodbridge ar enedigaeth eu hwyres fach, Sophie Gwen.

*Gohebydd - Gwyneth Meredith*

### Capel Ebeneser, Treuddyn

Cynhelir ein Rali Flynyddol dan ofal Mrs Siân Williams ar Fehefin 11eg am 6 o'r gloch.  
*Gwasanaeth dwyieithog.*  
**Croeso cynnes i bawb.**

## Y Drenewydd

### COFFÂD

O dro i dro byddwn yn cwrdd â rhywun sy'n gwneud inni ryfeddu bod Duw wedi rhoi cymaint o ddoniau i un unigolyn. Enghraifft drawiadol o hyn oedd Glyn Tegai Hughes a fu farw ar 10 Mawrth. Cafodd yrfa academaidd ddisglair ac roedd yn ysgolhaig ac yn ieithydd. Fel Warden cyntaf Gregynog ym Mhrifysgol Cymru, rhoddodd Glyn ei stamp ar y lle, gan greu canolfan ddiwylliannol unigryw. Ymysg ei gyflawniadau mwyaf arbennig oedd ailsefydlu Gwasg Gregynog fel gwasg breifat o'r safon uchaf.

Ond nid ysgolhaig yn unig oedd Glyn o bell ffordd. Yn ystod yr Ail Ryfel Byd bu'n swyddog yn y Ffiwsilwyr Cymreig. Roedd yn ddylanwadol yn y byd cyhoeddus a bu'n aelod o lu o gyrff cenedlaethol a lleol. Gwasanaethodd fel Cadeirydd Cyngor Darlledu Cymru a

Llywodraethwr Cenedlaethol dros Gymru ar Fwrdd y BBC. Roedd gwleidyddiaeth hefyd yn bwysig iddo. Roedd yn Rhyddfrydwr selog a bu'n ymgeisydd Seneddol deirgwaith yn y 1950au. Bu'n aelod ffyddlon o'r Eglwys Fethodistaidd ac yn weithgar iawn yn y Cyfundeb. Gwasanaethai fel pregethwr cynorthwyol am 70 o flynyddoedd gan bregethu'n gyson mewn capeli Cymraeg a Saesneg.

Cafodd Glyn ei eni yn y Drenewydd ac roedd Maldwyn yn agos at ei galon. Ar ei ymddeoliad o Gregynog symudodd ef a'i wraig Margaret i fyw yn Nhregynon. Bu farw Margaret yn 1996 ac yn fwy diweddar colodd Glyn ei fab hynaf David. Cydymdeimlwn â'i fab arall Alun a'i wraig Janet a roddodd gymaint o gymorth i Glyn yn ei fisoedd olaf. Cynhaliwyd gwasanaeth o ddiolchgarwch am ei fywyd yng nghapel Methodistaidd Saesneg y Drenewydd.

*Gohebydd - Lionel Madden*

## Ddoe a Heddiw

Roedd y pulpud yno, ond dim pregethwr. Roedd y sêd fawr yno hefyd, ond dim un blaenor. Roedd y pulpud a'r sêd fawr yno ers y dyddiau pan oedd Caffi Gwynant yn Gapel Bethania a phan oedd yr aelodau yn gynulleidfa fechan leol Gymraeg.

Ond daeth tro ar fyd. Mae yna gynulleidfa newydd: pobol o bedwar ban byd, sydd bellach yn troi i mewn am banded o de a phryd o fwyd. Diwallu'r corff yn hytrach na diwallu'r enaid, erbyn hyn. Yn y dyddiau hyn pan fo llawer iawn o gapeli ac eglwysi yn cau, da yw gweld bod rhyw falchder o hyd mewn dangos mai capeli ac eglwysi oedd yr adeiladau hyn cyn i'r newid mawr ddod a bod pob pulpud a sêd fawr, ac unrhyw grair arall sy'n aros, yn gofadail i fawredd ein gorffennol ac yn obaith hefyd i yfory pob un ohonom. - RJ



## Gwaith y Cyngor Ysgolion Sul: rhai uchafbwyntiau

Mae'r adroddiad ar waith y Cyngor Ysgolion Sul yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, 2016, a gyhoeddwyd gan y Cyfarwyddwr sef y Parchg. Aled Davies, yn rhoi gwybodaeth gynhwysfawr am yr holl weithgareddau a fu'n mynd ymlaen yn ystod y flwyddyn hon, pan ddathlwyd 50 mlynedd ers sefydlu'r Cyngor ym 1966. Roedd 2016 yn flwyddyn hybu ymgyrch Beibl Byw, yn ogystal â chynllunio ar gyfer Blwyddyn Byw'r Beibl eleni. Chwaraeodd y Cyngor ei ran yn y gwaith o ddsbarthu copïau o beibl.net, a gafodd ei ailargraffu. Tua diwedd y flwyddyn daeth y fersiwn print bras i law yn ogystal

Yn dilyn cyhoeddiad gan y Cynulliad Cenedlaethol am doriad sylweddol i'r grant cyhoeddi yng Nghymru, bu'r Cyngor yn rhan o'r ymdrechion i herio'r penderfyniad hwnnw ac yn y pen draw llwyddwyd i'w wrthdroi gan ddiogelu'r gyllideb.

Fel rhan o 'Beibl Byw', gwelwyd pobl wedi gwisgo fel rhai o gymeriadau'r Beibl ar feysydd Eisteddfod yr Urdd, y Sioe Amaethyddol a'r Eisteddfod Genedlaethol. Lanswyd *Canu Clod!* [llongyfarchiadau arbennig i Delyth Wyn! *Gol.*] Cafwyd Cyfrol 1 yn Ebrill, a Canu Clod Cyfrol 2 ym mis Awst - casgliad unigryw o dros 440 o ganeuon mawl i blant ac ieuencid. Datblygiad cyffrous arall ar hyn o bryd yw datblygu gwefan gemau a stori Arwyr Ancora.

Dyma enghraifft wych o gydweithio cydenwadol sy'n dwyn ffrwyth ar lawr gwlad.



## Ystyriwch lili'r maes

Mewn cyfarfod yng nghapel Penbryn, Treffynnon yn ddiweddar, cafodd Cymdeithas Chwiorydd Capeli Bro Treffynnon gyfle arbennig i werthfawrogi harddwch pob math o flodau. Mae'n siŵr y byddai llawer ohonom yn hoffi gallu gosod blodau yn drawiadol: dyma ddawn y mae Mrs Menna Coleclough yn meddu arni. Yn y

cyfarfod fe greodd Menna ddwy arddangosfa o flodau yn dwyn y teitlau 'Bro fy magwraeth' a 'Fy nghrefydd'. Yn dilyn gwasanaeth byr ar y dechrau, cafodd y chwiorydd gyfle i wyllo Menna yn gosod y blodau yn gelfydd ac ar yr pryd glywyd ychydig o hanes bro ei mebyd sef Rhes y Cae a Mynydd Helygain a hanesion difyr am gapeli

Babell, Rhes y Cae a Nant, Y Fflint. Rhannodd Menna ei theimladau am sut y mae'n ceisio cysylltu ei chrefydd â'r cyfan y mae'n ei wneud yn ei bywyd o ddydd i ddydd. Darllenodd adnodau o'r Efengyl yn ôl Mathew, pennod 6, adnodau 25 - 34, ac fe gawsom gyfle i wrando ar y gân 'Un dydd ar y tro'.

# Gobaith

gan y Parchedig J. Bryn Jones

Un o eiriau pwysicaf yr Apostol Paul yn ei lythyrau yw Gobaith. Ni fyddai mae'n debyg wedi mentro ar ei deithiau cenhadol pe na bai yn obeithiol y gwelai ffrwyth ei lafur; dyma'n union a ddigwyddodd pan sefydlodd yr eglwys i sonia amdanynt yn ei lythyrau.

Yn ei emyn (1 Cor. 13) i Ffydd, Gobaith a Chariad, rhoes Paul bwyslais ar y gair Cariad fel y nodwedd bwysicaf yn y drindod honno. Ac eto, byddai Paul yn cydnabod nad yw yr un o'r tri gair yn sefyll ar ei ben ei hun, oherwydd mae'r tri yn perthyn i'w gilydd; yn syml iawn, mae'r naill yn cynnal y llall, fel petai –

a hebddynt byddai neges yr Efengyl yn gwbl anghyflawn.

Dyma rai o golofnau Cristnogaeth, yn wir: Ffydd, Gobaith a Chariad. Gallwn ddiwinydda wrth feddwl am y gwahanol agweddau arnynt ond, ar yr un pryd, mae'n rhaid wrth sylfaen. Dyna a ddysgodd Iesu i ni wrth sôn am y ddau adeilad – y naill wedi'i adeiladu ar dywod a'r llall ar graig. Pan ddaeth y llifogydd, syrthiodd y tŷ ar dywod, oedd heb sylfaen (Luc 6: 46-49). Oes, mae angen diwinyddiaeth ac athrawiaeth ond nid yw hynny'n ddigon; mae'r ochr ymarferol yr un mor bwysig.

Er bod yr Apostol yn pwysleisio pwysigrwydd credu ac ymddiried yng Nghrist, mae'r un mor bwysig ymarfer y ffydd yn ddyddiol. Mae digon o gyfleoedd i wneud hynny yn y byd sydd ohoni, a chynifer o'n brodyr a'n

chwiorydd yn dioddef yn enbyd. Clywsom yr hanes am waith da y Fam Teresa ymhlith y newynog a'r digartref ar strydoedd Calcutta. Wrth iddi borthi'r newynog, dywedodd fod Crist yn edrych drwy ei llygaid, yn gweithio â'i dwylo – ac mae'r un peth yn wir amdanom i gyd wrth inni fel Cristnogion dystio i ochr ymarferol ein ffydd. Mae'n dda gwybod bod pob cyfraniad a wnawn fel unigolion neu eglwys i elusennau megis 'All We Can' (elusen y Cyfundeb Methodist-aid), neu Cymorth Cristnogol ac yn y blaen – boed fach neu fawr – yn galluogi'r gweithwyr gwirfoddol ac eraill i barhau â'u gwaith o helpu'r tlawd a'r anghenus.

Diolch am barodrwydd y bobl hynny sy'n peryglu eu bywydau eu hunain i helpu eraill ... dyma ddwylo a llygaid Crist yn y byd cyfoes.

pryd bynnag a lle bynnag rydw i eisiau (o fewn rheswm!) Ac os byth y canfyddaf fy hun ar ynys bellennig heb neb arall ar ei chyfyl, yna bydd gennyf holl arfogaeth Pantycelyn ger llaw.

Peth arall garwn ei wneud fyddai mynd ar bererindod i Bantycelyn ei hun – mae blynyddoedd ers pan fŷm yno ddwytha. Fe dalodd Williams yn ddrud am ochri efo'r Methodistiaid. Gallai fod wedi cael bywyd digon cyfforddus yn offeiriad ar ryw blwyf. Ond oherwydd ei weithgareddau Methodistiaid, gwrthodwyd urddau offeiriad iddo. Treuliodd weddill ei oes yn bregethwr teithiol, yn teithio filoedd o filltiroedd ar gefn ei geffyl.

Gorffennaf gyda'r emyn cyntaf i mi ei dysgu ar fy nghof eleni, sydd â diweddglu bendigedig o obeithiol,

'Cyfoeth mawr di-drai difesur  
Sydd ynghadw imi'n stôr,  
A bendithion, oll pe rhifid,  
Megis tywod mân y môr.'

'Esgyn a wnaeth i entrych nef  
I eiriol dros y gwan;  
Fe sugna f'enaid innau'n lân  
I'w fynwes yn y man.'

Onid yw'r iaith yn ddramatig? Beth gewch chi sy'n gryfach na'r ddelwedd o 'sugna f'enaid innau'n lân'? Ac yna, gallwn ni, gymeriadau gwael y llawr sydd mor aml yn ansicr a gwan eu ffydd, ganu

'Ac yna caf fod gydag Ef  
Pan êl y byd ar dân,  
Ac edrych yn ei hyfryd wedd,  
Gan harddach nag o'r blaen.'

Dyna i chi sicrwydd. Ac yn y dyddiau modern hyn, maent yn dal yn enbyd o berthnasol.

Rydw i wedi penderfynu dysgu un o emynau Pantycelyn ar fy nghof bob wythnos am 2017. Dyna'r bwriad beth bynnag, ac mae'n un ffordd o ddathlu'r tri chan mlwyddiant.

Pam cyfyngu'r canu i oedfaon ar ddydd Sul? O'i dysgu ar fy nghof, gallaf ei canu



Pantycelyn. Hawlfraint y llun: John Lord

Atebion y Cwis (tudalen 16)

1-A; 2-C; 3-A; 4-C; 5-B; 6-A

# Y GRAWYS A'R PASG

gan y Diacon Stephen Roe

A ninnau'n nesáu at y Pasg, bŷm yn meddwl am ystyr a tharddiad rhai o'r geiriau sy'n gysylltiedig â'r tymor hwn o'r flwyddyn. I ddechrau, dyna Ddydd Mawrth Ynyd – y gair 'ynyd' yn dod o'r Lladin 'initio' (cychwyn) gan fod y Grawys ar fin dechrau. Yna Dydd Mercher y Llundw, oherwydd yr arferiad, wrth gwrs, o roi lludw ar y talcen ar siâp croes, ar y diwrnod hwn pan fydd y Grawys yn dechrau.

Yn Gymraeg, fel yn Ffrangeg (Carême) a nifer o ieithoedd eraill, mae'r gair *Grawys* neu *Garawys* yn dod o'r Lladin 'quaragesima' sy'n golygu 'y deugeinfed dydd' (cyn y Pasg). Ond mae hyn yn codi cwestiwn. Rydyn ni i gyd yn gwybod bod tymor y Grawys yn para am 40 dydd am fod Iesu wedi treulio 40 dydd yn yr anialwch yn cael ei demtio gan y diafol cyn cychwyn ar ei weinidogaeth gyhoeddus. Gan fod Dydd Mercher y Llundw eleni ar 1 Mawrth a Dydd Sadwrn Sanctaidd ar 15 Ebrill, mae chwe wythnos a hanner rhwng y ddau – 46 dydd! Mae dau ateb posib i'r cwestiwn: yn gyntaf, dydy'r Suliau ddim yn rhan o'r Grawys, achos mai dydd yr Atgyfodiad ydy'r Sul, ac felly, mae pob dydd Sul yn cyfrif fel 'Pasg bach' a heb fod yn ddiwrnod ymprydio; neu yn ail, mae'r Grawys yn dod i ben ar Sul y Blodau, er mwyn rhoi amser i ymbaratoi at y Pasg trwy'r Wythnos Fawr. Mi gewch chi ddewis!

Mewn ieithoedd eraill (e.e. Almaeneg 'Fastenzeit') mae enw tymor y Grawys yn cyfeirio at yr arferiad o ymprydio. Yn Saesneg, mae 'Lent' yn dod o'r hen air 'lencte' – dyna lle ceir hefyd y gair 'lengthen' – gan fod y dyddiau yn ymestyn yr adeg hon o'r flwyddyn.

Ar 26 Mawrth eleni, a hithau'n bedwerydd Sul y Grawys, fe gawn Sul y Mamau, term sydd mewn gwirionedd yn

cyfeirio at famau neu famolaeth yn gyffredinol, mewn cyferbyniad â 'Mother's Day' a ddefnyddir fwyfwy yn Saesneg heddiw gan ganolbwyntio ar yr unigolyn. Roedd traddodiad hefyd o fynd i'r 'fam-eglwys' yng nghanol y Grawys, sef eglwys fwyaf yr ardal, neu'r Eglwys Gadeiriol.

Hawdd deall tarddiad enw Sul y Blodau wrth inni gofio ymateb y dyrfa pan orymdeithiodd Iesu i mewn i Jerwsalem ar ddechrau wythnos olaf ei fywyd daearol. Beth wedyn am Ddydd Iau Cablyd? Daw'r gair 'cablyd' o'r Lladin 'capillatio', sy'n golygu 'eillio pen' neu 'torri gwallt'. Byddai'n arferiad i fyneich eillio eu pennau ar y diwrnod hwn, yn ogystal â golchi traed i gofio gweithred yr Arglwydd Iesu. O'r Lladin hefyd sef

'mandatum' (gorchymyn) y ceir 'Maundy Thursday'.

'Gwnewch hyn er cof amdanaf' yw gorchymyn Iesu ei hun i ni ac, yn ogystal: 'Yr wyf yn rhoi i chi orchymyn newydd: carwch eich gilydd.'

Ar y Groglith fe ddarllenwn am Iesu yn hongian ar y Groes. Mae 'Good Friday' yn dod o hen ystyr y gair, sef 'sanctaidd' yn hytrach na 'da'. Enw'r dydd yn Almaeneg ydy

'Karfreitag', sy'n golygu 'galaru' (cymh. y dywediad Saesneg 'burdened with care').

Daw'r gair 'Pasg' wedyn o'r Hebraeg 'Pesach', enw'r wyl a ddethlir gan yr Iddewon i gofio eu dihangfa o gaethiwed yng Ngwlad yr Aifft. Roedd y Swper Olaf, wrth gwrs, yn bryd o fwyd i ddathlu 'Pesach'. Mae'n anodd gwybod yn bendant o ble mae 'Easter' (ac 'Ostern' yn Almaeneg) yn dod, ond yn ôl pob tebyg fe ddaw o enw'r dduwies Eostre a addolwyd gan bobl Gogledd Ewrop cyn yr oes Gristnogol, ac a roddodd ei henw hefyd i fis yn y gwanwyn, tua'r un amser o'r flwyddyn â mis Ebrill.

*Bendithion y Pasg i chi i gyd.*

'Gwyn eu byd y rhai pur eu calon oherwydd cânt hwy weld Duw,' meddai Iesu, ac mae ei air ef yn gwarantu'r addewid. Mae'r 'gweld' yn cynnwys y syniad o sefyll gerbron, o adnabyddiaeth a chymdeithas, o amgyffred gyda'r holl saint ... a gwybod cariad Duw, yr hwn sydd uwchlaw gwybodaeth. Dyma goron pob gobeithion. Nid rhyfedd i Iesu ddweud 'Gwyn eu byd'... Crea galon lân ynof, O Dduw, ac na chymer dy ysbryd sanctaidd oddi arnaf.

Y Parchg. Hugh Rowlands (1917-2008) yn y Gwyllydydd, Ebrill 1990

A bydded i Dduw, ffynhonnell gobaith, eich llenwi â phob llawenydd a thangnefedd wrth ichwi arfer eich ffydd, nes eich bod, trwy nerth yr Ysbryd Glân, yn gorlifo â gobaith. Rhufeiniaid 15: 13

# Dyma amser i anghytuno'n dda

Myfyrdod ar gyfer cyfnod Etholiad, gan Gyd-dîm Materion Cyhoeddus yr Eglwysi

Ond rhowch brawf ar bob peth a glynwch wrth yr hyn sydd dda. Ymgadwch rhag pob math o ddrygioni.

1 *Thesalonïaid* 5:21-22

Beth sy'n dylanwadu arnoch chi? Weithiau, dydyn ni ddim hyd yn oed yn sylwi ar sut mae syniadau, digwyddiadau neu safbwyntiau'n cael effaith ar yr hyn yr ydym yn ei gredu neu'n ei wneud. Gall sylw'r cyfryngau effeithio ar y ffordd yr ydym yn gweld pethau. Mae cywair rhai dadleuon gwleidyddol a rhai penawdau yn ddiweddar wedi bod yn annymunol ac yn ymrannol, tuedd a allai barhau wrth i'r gwahanol

bleidiau gystadlu am ein sylw a'n cefnogaeth.

Un o'r cwestiynau y gallem ni, fel disgyblion i Iesu Grist, eu gofyn yw, "Pa effaith y mae hyn i gyd yn ei gael arnom ni?" Wrth i ni feddwl am ein rôl broffwydol fel pobl Dduw, fe allem hefyd ystyried pa effaith a gaiff hyn ar gymdeithas yn gyffredinol wrth i ni ddod yn gyfarwydd â'r difriô, y sarhau a'r cyhuddiadau.

Un o'r egwyddorion allweddol yr ydym ni, fel eglwysi sy'n gweithio gyda'n gilydd drwy Cytûn, wedi ceisio ei chofleidio yw herio naratif, rhagdybiaethau a pholisïau sy'n ceisio

stigmatiddio a cham-gynrychioli pobl eraill. Yn ystod yr ymgyrch etholiadol hon, pa rôl sydd gennym ni, fel Cristnogion, mewn herio'r gor-ddweud, yr ystumio a'r hanner gwirionedd a ddaw i'r amlwg? Sut rydyn ni'n gwarchod ein hunain ac eraill rhag effaith niweidiol naratifau a hawliadau o'r fath? Dyma amser i bobl Dduw geisio gwirionedd a datgelu twyll. Ym mha ffyrdd y gallwn ni herio iaith a syniadau sy'n niweidio? Sut y gallwn fodelu ffyrdd iachusol ac anrhydeddus lle gall pobl sydd â gwahanol safbwyntiau a barn drafod a dadlau eu safbwyntiau gwrthwynebol yn barchus?

## Bugeiliaid y Stryd ym Mangor

gan PAUL ROWLINSON

Chwe blynedd yn ôl cyhoeddodd y *Gwyllydydd* erthygl am fenter Bugeiliaid y Stryd oedd newydd ei sefydlu ym Mangor, yr ail fenter o'r fath yn y Gogledd ar ôl yr un gyntaf yn Wrecsam. Erbyn hyn mae dros 300 o fentrau Bugeiliaid y Stryd ledled y byd a rhyw 20 yma yng Nghymru.

Ym Mangor mae pobl wedi dod i arfer â gweld y tîm o bedwar bugail stryd yn cerdded y strydoedd nos Wener neu nos Sadwrn o 10 o'r gloch yr hwyr nes bod pawb wedi mynd adref tua 4 o'r gloch y bore. Daw bugeiliaid y stryd o amrywiaeth eang o eglwysi ac mae cydweithio rhwng y gwahanol enwadau a mynd â'r eglwys allan at y bobl ar y stryd yn rhan bwysig o'n hethos. Mae'r rhan fwyaf o bobl yn falch o'n gweld yn cynnig gofod bugeiliol, yn rhannu poteli dŵr, rhoi fflip-fflops i ferched sydd wedi tynnu eu hesgidiau ac yn cerdded yn droednoeth, neu siacedi neu flancedi ffoil i bobl sy'n oer yn y gaeaf. Rydym yn fodlon aros gyda phobl neu eu hebrwng adref os ydynt yn bryderus neu eu helpu i gael tacsï. Yn ogystal â'r gofod a'r cymorth ymarferol hwn, rydym hefyd yn falch o sefyll i gael sgwrs ac mae pobl yn dod atom i sôn am unrhyw beth sy'n eu poeni.

Ein nod yw sicrhau bod pawb yn ddiogel a phan welwn pobl yn ffraeo byddwn yn aml yn gallu tawelu pethau a sicrhau nad yw'r sefyllfa'n troi'n dreisgar. Felly roedd y traï a arweiniodd at farwolaeth dyn ifanc ym Mangor



yn ddiweddar yn frwydus ac yn drist iawn. Roedd bugeiliaid y stryd yno yn syth gan dreulio'r awr nesaf yn helpu'r heddlu i reoli'r torfeydd oedd yn dod allan o'r clwb nos, yn cysuro pobl mewn tralod a thawelu pobl a ymatebodd yn flin. Nododd sylwedydd bod bugeiliaid y stryd wedi "chwarae rhan sylweddol i sefydlogi sefyllfa flinderus iawn a dangos sut i weinidogaethu i Iesu Grist mewn sefyllfa anodd dros ben".

Mae tuag ugain o fugeiliaid stryd wrthi ym Mangor gyda rhagor yn dechrau eu hyfforddiant gyda chwrs cyflwyno ar 17 Mehefin. Mae'r cwrs di-

dâl hwn yn agored i unrhyw un a hoffai ddysgu mwy am fugeiliaid y stryd. Neu os hoffech weld beth rydym yn ei wneud mae croeso i chi gysylltu â bugeiliaid y stryd yn eich ardal leol a mynd allan gyda nhw ryw noson – fel y mae Winston Roddick, cyn Gomisiynydd Heddlu Gogledd Cymru, yn gwneud yn y llun.

Mae mwy o wybodaeth am Fugeiliaid y Stryd ar y wefan [www.streetpastors.co.uk](http://www.streetpastors.co.uk) neu gallwch anfon e-bost at [bangor@streetpastors.org.uk](mailto:bangor@streetpastors.org.uk)

# Dylanwadau

gan MARGARET ROBERTS

Yn dilyn cais gan y golygyddion diwyd sydd yn dod â'r *Gwyllyddydd* inni drwy'r flwyddyn dyma roi meddwl ar waith a chofnodi cyfnodau o'm bywyd sydd wedi fy ngwneud yr hyn ydwyf heddiw.

Cefais fy ngeni ddiwedd yr ail ryfel byd a hynny yng Nghaerdydd gan fod fy nhad yn yr awyrlu yn St. Athen. Yn ddiweddar rwyf wedi sylweddoli fod porthladdoedd a llongau yn rhoi cysur imi: tybed a yw hyn oherwydd mai sŵn y seirenau a'r llongau yn symud y byddwn yn ei glywed pan oeddwn yn faban? Ar ôl dwy flynedd dyma ddychwelyd i ardal Ardudwy, lle buom yn byw am gyfnod wrth ymyl ysgol leol. Roedd fy nhad yn cadw ychydig o anifeiliaid gan gynnwys ieir dandi a byddwn yn chwarae a chanu gyda'r ieir; roedd hyn yn ennyn diddordeb mawr ymhlith athrawon a disgyblion yr ysgol. Yn ôl pob sôn roedd un iâr yn eistedd ar fy ysgwydd tra roeddwn yn canu. Byddai fy nghyfnitherod yn galw amdanaf i fynd i'r Ysgol Sul, rhyw ugain munud o waith cerdded, yr ochr arall i'r pentref. Mynychu'r 'Band of Hope' hefyd ac unwaith cawsom barti Nadolig pan fwyteais gymaint o jeli nes imi fod yn sâl yn hwyrach yn y dydd!

Ymhen ychydig o flynyddoedd cafodd fy nhad swydd yn Nolgellau a dyma symud i bentref bach o'r enw Tai Cynhaef yn arwain i ardal o'r enw Cwm Mynach - yn gysylltiedig ag Abaty Cymer yn Llanelltud. Ar y pryd roedd capel Methodistiaid Calffinaidd o'r enw Soar a chapel Annibynwyr Tiberias ar lan afon Mawddach. Fy nhad yn mynychu Soar a Mam yn aelod yn Tiberias - felly cefais y gorau o ddau fynd! Mae'n braf edrych yn ôl ar y cyfnod yma yn fy mywyd. Bywyd cefn gwlad a helpu'r cymdogion amser cneifio a chynhaeaf. Poeni fawr ddim am sefyllfa'r byd - ychydig a wyddwn, wrth gwrs, am y byd a'i broblemau.

Yng nghapel Tiberias, gofynnwyd imi chwarae'r organ pan oeddwn yn dair ar ddeg oed tra byddai'r ddwy chwaer oedd yn byw yn Tŷ Capel yn mynd i America i ymweld â'u brawd, mordaith o chwe wythnos i gyd. Roedd angen egni i chwarae pedalau'r harmoniw! Unwaith bu Niclas y Glais yno yn pregethu ac aeth i gryn hwyl, nes iddo daro gwydr y lamp baraffin ar y pulpud i ffwrdd, ar ben yr harmoniw! Cofiaf gael dillad newydd ar gyfer y gymanfa yn Nolgellau ym mis Mai. Tri chyfarfod, a'r cyfarfodydd pnawn a nos dan ofal arweinydd gwadd o'r 'South' - enwau blaenllaw ym myd cerdd fel Terry James



ac Alan Guy. Wrth gwrs, byddem yn ymarfer cyn y gymanfa, yn y capel ac ar yr aelwyd, a byddai sawl eglwys yn dod at ei gilydd i gael rihysal. Byddai angen dysgu anthem megis 'Efe a Ddaw' neu 'Dyn a aned o Wraig' o'r Detholiad. Roedd yn rhaid gwybod ein gwaith cyn y gymanfa. Yng nghapel Tiberias y priodais yn ddiweddarach, ac y bedyddiwyd ein dwy ferch. Yn anffodus mae'r ddau gapel wedi cau ac erbyn hyn yn dai annedd.

Er pan oeddwn i'n ifanc, roedd gen i awydd ymuno â'r heddlu. Byddwn yn mynychu'r achosion pwysig yn y llys barn yn Nolgellau yn ystod gwyliau'r ysgol. Roedd fy rhieni'n berffaith fodlon ond doedd Nain ddim yn hapus o gwbl - yn enwedig pan glywodd fy mod yn mynd i'r hen Lerpwl 'na er mwyn ymuno â'r heddlu. Dyna gyfnod cyffrous i ferch o'r wlad - diniweityn, yn wir - pan es i dref fawr ond bûm yn ffodus am fod gen i deulu yno a roddodd groeso arbennig imi a chymorth i ymdopi â bywyd gwahanol y dref.

O ran dylanwadau, mae cymdeithas y capel a'r ffydd Gristnogol wedi chwarae rhan bwysig yn fy mywyd ac maent yn dal i roi nerth imi bob dydd.

## SYNOD Y GWANWYN, 2017

Cafodd aelodau'r Synod groeso cynnes pan ddaethant ynghyd i Jerwsalem, Wrecsam ar ddydd Sadwrn 22 Ebrill. Bu'n gyfarfod bendithiol: gobeithio y gwelwn y trafodaethau'n dwyn ffrwyth yng ngwaith y Synod i'r dyfodol. Agorwyd y cyfarfod gyda defosiwn o dan arweiniad y Parchedig Marc Morgan a Mrs Maryl Rees. Darllenodd Maryl o Luc 24, hanes y ddau ddisgybl ar y ffordd i Emaus, gan osod cywair i'r diwrnod sef ein hangen parhaus i sylweddoli fod Iesu'n bresennol gyda ninnau ar ein pererindod.

Cafwyd 17 o adroddiadau yn diweddarau'r Synod am waith yr Ymddiriedolwyr, y Pwyllgor Gwaith, y Cyngor ac yn y blaen, ac amrywiol feysydd gwaith eraill y Synod. Diolchodd y Cadeirydd y Parchedig Ddr Jennie Hurd yn gynnes i bawb am yr ymroddiad yr oedd yr adroddiadau hyn yn ei gynrychioli. Deallwyd bod pob capel bellach wedi derbyn copi o beibl.net drwy law Arweinyddion yr Ardaloedd. Yn adroddiad 'Un Genhadaeth' cyfeiriwyd at y ffaith ein bod wedi ymrwymo i gefnogi Masnach Deg: dylem brynu te, coffi a siwgr Masnach Deg yn unig ym mhob capel. Diolchwyd i'r Parchedig Marty Presdee am dderbyn cyfrifoldeb am waith MHA yn awr. Hysbyswyd y Synod fod y Parchedig Gwynfor Williams wedi derbyn caniatâd yn Eisteddiad y Gweinidogion i "eistedd i lawr" a bod y Parchedig Gwyn Thomas yntau yn ymddeol o waith gweithredol; diolchwyd am eu cyfraniad amhrisiadwy.

Erbyn hyn rydym yn symud ymlaen i bedwaredd thema *Ein Galwad*, sef efengyl. Cafodd y cynrychiolwyr gyfle i drafod am ychydig ymhlith ei gilydd pa wahaniaeth y mae'r cynllun pedair blynedd o ddilyn y themâu wedi ei wneud, hyd yma. Y teimlad cyffredinol oedd bod newid i'w weld ond mai proses araf ydyw. Yn sicr mae'n bwysig ac yn helpu capeli unigol i fod yn mywybodol eu bod yn rhan o rywbeth llawer mwy yn hytrach na dim ond un gynulleidfa mewn un lle. Cafwyd diweddariad hefyd ynglŷn â'r Adolygiad o Fywyd Synod Cymru a phenderfynodd y Synod fwrw ymlaen i chwilio am ffyrdd o weithio ar y themâu sydd wedi dod i'r amlwg [gweler tudalen ?8].



# CRWYDRO LLEFYDD SANCTAIDD

## YNYS Y LLYSWENNOD


gan BET HOLMES

Ddiwedd mis Mawrth, ces i'r pleser o dreulio penwythnos yn ninas Ely yn Swydd Caergrawnt. Mae'r dref - "Eel-ey, sef "Ynys y Llyswennod" - wedi tyfu ar gribyn o glais Kimmeridge uwchben y Ffeniau, ac ar y grib honno y saif yr eglwys gadeiriol hyfryd. Fe'i sefydlwyd yn y 7fed ganrif gan yr abades gyntaf, y Frenhines Etheldreda; mae'r lle wedi datblygu, a dechreuwyd codi'r gadeirlan sydd i'w gweld heddiw yn fuan ar ôl y Goncwest Normanaidd. Mae Ely yn ffodus am nid oes yr un adeilad uchel arall i fratu'r olygfa, ac wrth i fi yrru trwy'r meysydd isel, fe welwn yr eglwys gadeiriol ar y gorwel. Roedd ei chorff yn edrych fel llong yn teithio dros fôr o afonydd, pyllau a chorsydd - a dyna sut ardal oedd y Ffeniau, cyn i'r Iseldirwyr ddechrau creu ffosydd er mwyn adennill y tir yn yr 17eg ganrif. Mae'r eglwys yn haeddu ei henw, "Llong y Ffeniau" (the Ship of the Fens).

Mae'r lle yn anhygoel. Mae'n werth cael cric poenus yn eich gwar yn edrych ar luniau nenfwd y corff. Ces f'atgoffa o Chartres a Laon yn Ffrainc gan las cryf y ffenestri lliw. Yna y ffrog llawn mor las ar gerflun Mair gan David Wynne



(cerflun modern a fu'n destun dirmyg rhai); y bensaernïaeth gothig o'r cyfnod "addurnedig" yn y porth (galilee) a'r Côr; urddas Wyneb y Gorllewin.... byddai'n werth ymweld â'r Gadeirlan ar gyfer unrhyw un o'r pethau hyn. Ond y nodwedd arbennig sy'n rhoi gwefr i chi yw'r lantern wyth-ochrog fendigedig.



Ar un adeg, roedd gan yr adeilad dŵr canolog, ond cwmpodd hwn yng nghanol y nos, ryw noswaith ym mis Chwefror 1322 (ni chafodd neb ei anafu, diolch am hynny). Yn ei le, creodd William Hurley, prif saer coed y brenin, dŵr derw; adeiladodd ei weithwyr ffanfowtiau pren, gyda'r lantern fawr yn sefyll ar y croeslathau tenau.

Dywedir bod

peirianwyr adeiladu heddiw yn methu deall sut wnaeth Hurley y gwaith mathemateg i gyd, heb gyfrifiaduron na hyd yn oed tablau log! Ond mae'r canlyniad yn arbennig o wych, rhywbeth sydd yn ychwanegu at natur gysegredig yr eglwys: teimlais wir bresenoldeb Duw yn y lle.

Es i Ely am benwythnos astudio gyda BRIEF\* a chawsom sgysiau ar John Donne a Martin Luther, gan aros yn Bishop Woodward House, lle croesawgar iawn. Ces i amser hyfryd, gyda'r gwanwyn yn ei anterth, a llawer o waith crefft a danteithion ar gael yn y farchnad - ond dim un llysywen!

\*British Region of the International Ecumenical Fellowship

## Sant Paul, Yr Eglwys Fethodistaidd, Aberystwyth

I ddathlu 25 mlwyddiant yr adeilad newydd, gosodwyd baner newydd i harddu'r capel.

Y gallu a'r anrhydedd a'r clod,  
Y moliant a'r parch yn gytún,  
O'r nefoedd i'r ddaear gaiff fod  
Yn gyfan i'm Harglwydd ei Hun.

*William Williams, Pantycelyn*



# Tudalen y Plant

## Y PASG



Annwyl Iesu, diolch i ti,  
daethost lawr o'r nefoedd fry;  
ar y ddaear buost yn byw  
bywyd llawn o gariad Duw.

Annwyl Iesu, diolch i ti,  
buost farw drosod fi;  
trwy dy farw a dy fyw  
ti a rennaist gariad Duw.

Annwyl Iesu, diolch i ti,  
nôl yn fyw y daethost ti;  
ni all un peth yn fy myw  
rwystro dim ar gariad Duw.

Annwyl Iesu, diolch i ti,  
ti yw'r lôr a'm Brenin i;  
rhoddaist bwrpas i fy myw  
sef i rannu cariad Duw.

*Delyth Wyn*

### CWIS Y PASG

1. Beth gafodd Jwdas am fradychu Iesu?  
**A** = 30 darn o arian    **B** = 30 darn o aur    **C** = Tŷ ar lan Llyn Galilea
2. Pa un o ffrindiau Iesu ddywedodd nad oedd o ddim yn ei adnabod?  
**A** = Thomas    **B** = Jwdas    **C** = Pedr
3. Pwy wnaeth Pilat ei ryddhau yn lle Iesu?  
**A** = Barabbas    **B** = Lasarus    **C** = Joseff
4. Pa ddiwrnod o'r wythnos oedd hi pan gafodd Iesu ei groeshoelio?  
**A** = Dydd Llun    **B** = Dydd Iau    **C** = Dydd Gwener
5. Pwy oedd y cyntaf i weld Iesu yn fyw ar fore Sul y Pasg?  
**A** = Y garddwr    **B** = Mair Magdalen    **C** = Pedr ac Ioan
6. Lle cafodd yr wyau Pasg cyntaf eu gwneud?  
**A** = Yr Almaen    **B** = Cymru    **C** = Twrci

atebion ar  
tudalen 8